OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 763 (Cy.82)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *19 Mawrth 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *8 Ebrill 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 156(4) o Ddeddf Tai 1985(**1**) sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynalliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymym hwn yw Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2002 a daw i rym ar 8 Ebrill 2002.

(2) Mae'r Gorchymym hwn yn gymwys i Gymru'n unig.

### Cyrff a bennir

**2.** Pennir y cyrff canlynol yn sefydliadau benthyg cymeradwy i ddibenion adran 156(**3**) o Ddeddf Tai 1985 (blaenoriaeth arwystlon)—

(a) igroup uk loans limited — Rhif y Cwmni 3749420

(b) igroup2 limited — Rhif y Cwmni 3610605

(c) igroup3 limited — Rhif y Cwmni 3730890

(ch) igroup4 limited — Rhif y Cwmni 3797432

(d) igroup5 limited — Rhif y Cwmni 3770763

(dd) igroup mortgages limited — Rhif y Cwmni 3770776

(e) E-Mex Home Funding Limited — Rhif y Cwmni 2124900

(**1**) 1985 p.68; diwygiwyd adran 156(4) gan Ddeddf Tai 1988 (p.50), Atodlen 17, paragraff 106 a chan Ran XIII o Atodlen 19 i Ddeddf Tai 1996 (p.52).

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynylliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) Diwygiwyd adran 156 hefyd gan Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 (p.63), Atodlen 5, paragraff 1(2) a (5) a chan adran 120(3) a (4) o Ddeddf Diwygio Cyfraith Prydlesi, Tai, Datblygu Trefol 1993 (p.28).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*John Marek*

19 Mawrth 2002

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn un pennu saith corff yn sefydliadau benthyg cymeradwy i ddibenion adran 156 o Ddeddf Tai 1985 (blaenoriaeth arwystlon ar warediadau o dan yr hawl i brynu).

Mae adran 156 yn darparu bod yr atebolrwydd i ad-dalu gostyngiad a all godi o dan gyfamod gan y tenant sy'n ofynnol o dan adran 155 o Ddeddf 1985 yn gyfystyr ag arwystl cyfreithiol ar y tŷ annedd ond bod gan arwystl cyfreithiol, sy'n sicrhau swm sy'n cael ei fenthyca i'r tenant gan sefydliad benthyca cymeradwy er mwyn galluogi'r tenant i arfer yr hawl i brynu, flaenoriaeth drosto.

At ddibenion yr adran mae sefydliadau benthyca cymeradwy yn gymdeithasau adeiladu, yn fanciau, yn gwmnïau yswiriant, yn gymdeithasau cyfeillgar ac yn unrhyw gorff arall a bennir, neu y pennir ei ddosbarth neu ei ddisgrifiad, mewn gorchymyn a wneir, mewn perthynas â Chymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r cyrff hyn hefyd yn dod yn sefydliadau benthyg cymeradwy i ddibenion adran 36 o Ddeddf 1985 (blaenoriaeth arwystlon ar warediadau gwirfoddol gan awdurdodau lleol) ac adran 12 o Ddeddf Tai 1996 (blaenoriaeth arwystlon ar warediadau gwirfoddol gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig).

Yn ychwanegol, gan fod adran 156 o Ddeddf Tai 1985 yn cael ei chymhwyso gan adran 171A o'r Ddeddf honno at achosion lle diogelir hawl tenant i brynu a chan adran 17 o Ddeddf Tai 1996 at achosion lle mae gan denant hawl i gaffael o dan adran 16 o'r Ddeddf honno, daw'r cyrff a benwyd yn sefydliadau benthyg cymeradwy i ddibenion yr hawliau hynny.